# Crynodeb Gweithredol

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Canol Tref Blaenafon ym 1984 ac mae'n cynnwys 19 hectar o gwmpas craidd hanesyddol y dref. Cafodd yr Ardal Gadwraeth ei hymestyn i gynnwys Hen Heol y Frenhines a Phillips Street yn 2011. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys 26 o adeiladau rhestredig ac un Heneb Restredig – Gwaith Haearn Blaenafon, sef y prif reswm dros ddatblygiad y dref a statws Safle Treftadaeth y Byd ehangach yr ardal.

Mae Cynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth yn ddiweddariad i'r Cynllun gwreiddiol a gymeradwywyd yn 2011 ac fe'i paratowyd i gyflawni'r cyfrifoldebau am warchod neu wella'r Ardal Gadwraeth. Ei nod yw cynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o ran gwarchod a gwella treftadaeth adeiledig Blaenafon - ardal allweddol Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon - wrth alluogi i'r cyhoedd weld manteision byw mewn Ardal Gadwraeth a'u cyfrifoldebau nhw ar gyfer ei rheoli a'i hamddiffyn yn y dyfodol.

Pwrpas y ddogfen hon hefyd yw adnabod y nodweddion hynny sy'n gwneud yr Ardal Gadwraeth yn ardal o ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig. Mae'r Cynllun yn diffinio ac yn dadansoddi'r cymeriad arbennig a'r nodweddion, a'r diddordeb pensaernïol a hanesyddol sy'n sail i ddynodiad Ardal Gadwraeth Blaenafon. Mae'r Cynllun yn adnabod yr asedau a'r materion allweddol ac yn amlinellu argymhellion ar gyfer gwarchod neu wella cymeriad arbennig yr ardal yn y dyfodol.

Nodir cynigion gwarchod a gwella gan gynnwys: adnabod eiddo sy'n addas i'w rhestru'n lleol; arolwg o ffin yr Ardal Gadwraeth gydag argymhellion ar gyfer estyniadau ar y ffiniau gogledd-ddwyreiniol a de-ddwyreiniol. Cyflwynir polisïau ar gyfer cynnal a chadw, trwsio a datblygiadau newydd ynghyd â chyfleoedd i wella a'r potensial o weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) ar ran o Heol Lydan sy'n effeithio nifer fechan o adeiladau i gynorthwyo gyda rheoli cymeriad arbennig yr ardal yn y dyfodol.

Paratowyd y ddogfen hon yn unol â Pholisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn y ddogfen 'Polisi Cynllun Cymru', (Rhifyn 9), Pennod 6 (Tachwedd 2016 a 'Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol' (Mai 2017), ac arweiniad CADW 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru' (Mai 2017).

Arolygwyd yr Ardal Gadwraeth rhwng mis Mawrth ac Ebrill 2017 ac roedd Cynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth yma yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr haf 2017. Ar ôl yr ymgynghori, bu i'r Cyngor Llawn ystyried a chymeradwyo'r Cynllun ar 17eg Hydref 2017. Bydd Cynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd a'i arolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cyfrannu tuag at reolaeth gynaliadwy'r amgylchedd adeiledig hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.